

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Chwefror 19fed - 2014
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Gill Cheverton (Is – Gadeirydd (GC), Lewis Davies(LD), Carwyn Jones(CJ), Alwena Roberts (AW), Rhian Hughes (RH), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP) a Alwyn Rowlands (AR)

2. Ymddiheuriadau - Dim

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 ddeg o Ionawr fel rhai cywir gan Cyng. D Pritchard, eilio gan Cyng. G Cheverton.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

- 4.1 **Tir Comin** - Clerc wedi cysylltu â John Radcliffe o Cyfoeth Naturiol Cymru. GC yn adrodd fod Simon Hunt ar gael i gynnig helpu. Clerc i wahodd i gyfarfod nesaf.
- 4.2 **Clawdd ar Mynydd Crafoed** - Mark Griffiths wedi gwneud y gwaith a thorri coed helyg ar y ffordd ger Simdde Wen i Creigle. Mrs Shamash wedi ffonio i ddiolch am y gwaith ac mae'n bosib bod cwyn ar ei ffordd gan Mr Worthington, oherwydd ei fod yn cynnal a chadw'r ardal hon ac yn hawlio'r tir. Clerc i edrych ar y gweithredoedd. Syniad roi'r gweithredoedd ar ein gwefan.
- 4.3 **Wefan i'r Cyngor Cymuned** - Clerc i anfon ymlaen y linc i'r safle.
- 4.4 **Fynwent Llanddona** - rhaglen ar y teledu mis nesaf. Derbyniwyd ymateb i'n llythyr oddiwrth y Cyngor Sir - nad oes unrhyw arian wedi ei neilltuo ond fod bwriad gwneud cais am gyllideb yn y flwyddyn ariannol 2014/15. Ymgynghorydd arbenigol wedi'i gyfarwyddo ac mae'r rhybuddion ffurfiol yn y broses o gael eu paratoi.
- 4.5 **Llwybr Tai Bach** - dim newyddion ymhellach.
- 4.6 **Difrod ar y Traeth** - pwy sydd yn gyfrifol o glirio i fyny? LD i drafod gyda'r Cyngor Sir.
- 4.7 **Estyniad i Maes Parcio Ponc y Felin** - CJ wedi cyfarfod swyddog o'r Cyngor Sir, gan awgrymu y byddai'r Cyngor Cymuned mewn gwell sefyllfa i gael grant, nag trio cael un drwy'r Cyngor Sir.
- 4.8 **Seddi gwag** - MW yn adrodd fod posib bod Rhiannon Gash gyda diddordeb ddod ar y Cyngor Cymuned.
- 4.9 **Ras yr Ynys** - wythnos nesaf 2/03/14. Bydd y ffordd o Fiwmares i Borthaethwy wedi cau rhwng 8.30 - 12.30.

5. Adroddiad gan y Cynghorwyr

LD / CJ - Wedi trio cael Grant Cymunedol i Landdona, tuag at ffensio darn o dir yng nghefn Bryn Felin, a chodi man eistedd. Ardal hon wedi cael ei gamddefnyddio yn y gorffennol, a byddai'n gyfle i dacluso'r lle. Dyddiad cau 7/03/14.

Awgrymwyd y Cyngor Cymuned na man parcio yn Ponc y Felin oedd y brif flaenoriaeth. Gofynnwyd a oedd modd cyflwyno dau gais ar gyfer y pentref? - lle awgrymodd LD efallai na fydd hyn yn bosib. Efallai bydd Grant Cymunedol ar gael blwyddyn nesaf. Cynigwyd i fynd ymlaen gyda chais am grant yn Bryn Felin gan RH, eiliwyd gan AW, pawb yn gytûn.

CJ - cais Tyrbin Gwynt yn Tyddyn Rhos, Llansadwrn, uchafswm o 15 medr, gyda blaen unionsyth o 21.7 medr. Gofyn i wrthwynebu oherwydd bod ar y ffin gyda Llanddona a gallai cychwyn ddatblygiad mwy.

CJ - egluro bod grant Chwarae Cymunedol rhwng £500 - £1,00 ar gael i bwrcasu peiriannu coed i blant. Fydd angen ymuno a chyfarfod ar y 15/03/14 er mwyn cael cyfle. LD yn ymuno. Hefyd yn gwneud ymholiad am grant i wella llwybr troed o Buarth Cytir tuag at y Neuadd. Angen adnabod y tîrfeidiannwr.

CJ - Dilyn pwysa gan y cyhoedd mae cwmni bysiau Padarn wedi penderfynu ail gyflwyno'r tocyn wythnosol yn ôl, tua chanol mis Mawrth.

CJ - Ysgol Llanddona, wedi ysgrifennu at adran Addysg, bydd dyddiad i wneud penderfyniad yn dod i ben 19/03/2014.

AR - Cyfarfod i drafod Gwasanaethau Cymdeithasol yn Ysgol Biwmares ar 30/01/14 - wedi creu corff o wirfoddolwyr i symud materion yn eu blaen. Yr hyn sy'n bwysig yw bod ganddynt lais cryf ac yn eu cyfeirio at wasanaethau sydd ar gael yn yr ardal, felly y gallai fod posibilrwydd o ail-agor y ganolfan dydd.

AR - Ffigwr treth o 4.5% yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn wythnos nesaf. Hefyd gweithio ar grŵp gweithio'n gallach, a phanel gwerthuso swyddi. Nawr ar banel cynllunio.

AR - gydag adrodd Williams, awgrymu bydd rhaid cael seminar i Cynghorau Tref a Cymunedol.

LD - Wedi cyfarfod Gerallt Menter Môn, i drafod rheoli'r coed helyg. Leah wedi symud ymlaen wrth gael swydd yn yr Wyddgrug. Mae swyddogion ardal o harddwch mewn trafodaeth gyda Menter Môn i gael cyfraniad i reoli tir comin.

Tir Comin o gylch yr Ysgol - Gerallt Jones wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir gan ofyn iddynt gofrestru tir yn enw'r Cyngor Cymuned.

6. Datgan Diddordeb

Cyng. L Davies, C Jones a A Rowlands ar geisiadau 22C40A, 22C189C/DA, a 17C472A.

7. Ceisiadau Cynllunio

- 22C189C/DA – Cais am faterion a gadwyd yn ol ar gyfer codi annedd a modurdy ar dir ger Glan Gors, Llanddona – dim gwrthwynebiad.
- 20C40A – Cynllun Diwygiedig, Cae Maes Mawr - cais lawn ar gyfer dymchwel yr annedd presennol a modurdy a chodi annedd a modurdy newydd, codi stablau, gosod system trin carthffosiaeth ac addasu'r fynedfa bresennol yn Cae Maes Mawr, Llanddona - Cytunwyd i wrthwynebu'r cais fel o'r blaen.

LD - wedi gweld swyddog o adran cynllunio, gan egluro bod yn anodd gweld y holl gynllun ar y ddisg, gan gael copi papur o'r cynllun. Wedi trafod y cais gydag adran o Harddwch Naturiol, ond yn anffodus nid oes ganddom ddigon o ddylanwad, a nad ydynt yn annibynnol o'r adran gynllunio. Mae'r cais yn cael ei anfon i mewn i bwyllgor.

MR - perchennog yma yn berchen a nifer o dai haf eraill yn yr ardal yma. Penderfynwyd gwahodd Pennaeth adran cynllunio i gyfarfod nesaf. Clerc i weithredu.

8. Tir Comin

Hawliau Maenorol - MR wedi mynychu a chyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Rhun ap Iorwerth. Neges oedd bod Stephen Hayes wedi penderfynu peidio â pharhau a'r rhybuddion. Llythyrau yn egluro hyn ar ei ffordd gan y Swyddfa Gofrestru Tir.

Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch i Rhun. Clerc i weithredu.

9. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- Hurio Ystafell Ysgol, Chwefror - £20
- Marc Griffith, torri cloddiau - £200
- Capel Peniel, rhodd - £250

Incwm

- Cyngor Sir, grant at wefan - £500

10. Gohebiaeth

Llythyr – Swyddfa Gofrestru – CYM526084

Llythyr – Cyngor Sir, Mynwent Eglwys Llaniestyn

Apêl - NSPCC

Apêl – Walk for Life

Llythyr – Ymgyrch blodau'r dyfodol

Llythyr – Un Llais, aelodaeth 2014/15

e-bost – John Radcliffe

Llythyr - Cyngor Sir, ymgyngori cyhoeddus adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa.

Llythyr – Cyngor Sir, gronfa ar gyfer gwella amgylchedd a'r gymuned

Llythyr – Albert Owen, diweddariad hawliau maenorol

11. UFA:

11.1 Derbyniwyd cais am rodd gan Capel Peniel. Dilyn trafodaeth cynigwyd £250 gan MW, eiliwyd gan RH pawb yn cytun.

11.2 Cytunwyd i dalu aelodaeth Un Llais ar gyfer 2014/14 - £93.00

11.3 MR wedi ymuno a chyfarfod Un Llais, trafodaeth ar newid yr hinsawdd, ac adroddiad Mike Harriman ar newidiadau

11.4 DP - Ffrwd Minffordd, dwr yn dechrau bwyta i mewn i'r tarmac.

11.5 RH - Neuadd y Pentre', cais wedi mynd i mewn am grant oddiwrth Big Lottery a Garfield Weston Foundation.

11.6 AW - Mark wedi gwneud gwaith da iawn o dorri cloddiau ar goed helyg.

11.7 Clerc i weld ar fanc ynghlyn a chyfrif y maes chwarae sydd wedi ei rewi oherwydd diffyg gweithgarwch.

12. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.30 o'r gloch.

Penderfynwyd Cyfarfod nesaf 19/03/14 am 7.30.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad